

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD Y PENDERFYNIAD</b>	4 Awst 2023
<b>DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD</b>	4 Awst 2023
<b>DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	11 Awst 2023

### ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cyngorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC** Gwerthu Rhydd Ddaliad Tir Yn harbwr allanol, Pwllheli

#### **PENDERFYNIAD –**

Argymhellir fod y Cyngor yn gwerthu Rhyddfrait y safle a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm yn uniongyrchol i'r tenant presenol ar delerau ac amodau i'w pennu gan Pennaeth Tai ac Eiddo.

#### **RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

### **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim


#### **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd  
Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Cynghorydd Craig ab Iago
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Daniel Lewis – Uwch Syrfewr Stadau
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:	4 Awst 2023
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

**Pwnc :**

Gwerthu Rhydd Ddaliad Tir Yn harbwr allanol, Pwllheli

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Argymhellir fod y Cyngor yn gwerthu Rhyddfraint y safle a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm yn uniongyrchol i'r tenant presenol ar delerau ac amodau i'w pennu gan Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi'r Cyngor i symud ymlaen i waredu eiddo sy'n weddill i anghenion ar gyfer defnydd gweithredol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Er mwyn sicrhau gwerth gorau am ei asedau yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dull traddodiadol o waredu eiddo'r Cyngor yw trwy hysbysebu ar y farchnad agored gan wahodd cynigion fel bod gan unrhyw rai sydd â diddordeb gyfle i brynu neu brydlesu. Bydd hyn yn sicrhau'r pris gorau ac yn sicrhau tryloywder.

Yn yr achos yma, mae'r safle eisoes wedi ei brydlesu i denant ar brydles tir hir dymor, gyda'r tenant yn berchen ar yr adeiladau, tra bo'r Cyngor yn berchen ar deitl rhyddfreinol y tir. O'r herwydd, mae'r tenant yn fodlon talu elfen o breimiwm er mwyn cyfuno eu les a'r teitl rhyddfreiniol er mwyn cael perchnogaeth llawn o'r safle.

Pe bai'r Cyngor yn cynnig y safle ar y farchnad agored yn amodol i'r brydles bresennol, byddai bodolaeth y brydles yn cyfyngu ar y gwerth y byddai trydydd parti yn fodlon ei dalu am y safle. Ystyrir felly fod y darpar brynwr yn fodlon talu uwchlaw yr hyn a fyddai unrhyw barti arall yn fodlon talu am y safle.

Yn unol a Chyfansoddiad y Cyngor, mae angen Penderfyniad Aelod Cabinet i waredu eiddo pan fod ei werth uwchlaw £25,000.

Nid oes unrhyw fwriad gwaredu am lai na gwerth y farchnad.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – “Dan yr amgylchiadau, credaf fod yr hyn a awgrymir yn rhesymol ac yn adlewyrchiad teg o’r opsiynau sydd ar gael. Nid oes gennyf wrthwynebiad, felly, o safbwynt priodoldeb ariannol.”

**Swyddog Monitro** – “Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb”

**Aelod/au Lleol – Cyngorydd Hefin Underwood** – Dim Gwrthwynebiad